# Dilysu adnabod llinell y galwr (CLI) – asesiad a map ffordd y dyfodol

Cyhoeddwyd 1 Chwefror 2024

# 1. Trosolwg

1.1 Un o flaenoriaethau Ofcom yw diogelu defnyddwyr rhag niwed a achosir gan sgamiau sy’n cael eu hwyluso gan alwadau ffôn. Tacteg gyffredin a ddefnyddir gan sgamwyr yw 'sbŵffio’ rhifau ffôn er mwyn iddynt ymddangos eu bod yn dod gan berson neu sefydliad dibynadwy, megis banc. Pan fydd galwadau sgam yn ymddangos yn ddibynadwy, mae'n golygu bod dioddefwyr yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth bersonol neu wneud taliad, a all arwain at niwed ariannol ac emosiynol sylweddol

1.2 Rydym eisoes wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i’w gwneud yn anodd i sgamwyr niweidio defnyddwyr drwy ddefnyddio rhwydweithiau telathrebu'r Deyrnas Unedig. Mae’r mesurau hyn yn cynnwys:

a) pennu gofynion ynghylch y ffordd y dylai gweithredwyr rwystro rhifau na fwriedir eu defnyddio i wneud galwadau allan (yr enw a roddir ar y rhestr o'r rhifau hyn yw’r rhestr “Heb Ddangos Tarddiad”);
b) mynnu bod gweithredwyr yn dynodi ac yn rhwystro galwadau o dramor sy’n sbŵffio Rhifau Rhwydwaith sefydlog y Deyrnas Unedig; a
c) thynhau’r gofynion ar weithredwyr i gynnal diwydrwydd dyladwy priodol wrth is-ddyrannu rhifau i weithredwyr eraill yn y Deyrnas Unedig.

1.3 Ym mis Ebrill 2023, buom yn ymgynghori ar ddull gweithredu posibl a allai alluogi darparwyr i roi prosesau mwy cynhwysfawr ar waith i ganfod a rhwystro galwadau gan rifau sy’n cael eu sbŵffio.[1] Byddai’r rhain yn golygu bod y rhwydwaith o ble mae’r alwad yn tarddu, lle bo hynny’n dechnegol bosibl, yn cadarnhau dilysrwydd rhif ffôn y galwr cyn ei throsglwyddo i rwydwaith y sawl sy’n derbyn yr alwad. Byddai hyn yn golygu bod y sawl sy’n derbyn yr alwad yn cael sicrwydd bod yr alwad yn ddilys. Rydym yn cyfeirio at hyn fel ‘dilysu data Adnabod Llinell y Galwr (CLI)’.

1.4 Nid oedd yr ymgynghoriad ym mis Ebrill 2023 wedi gwneud unrhyw gynigion penodol ar gyfer cyflwyno dulliau dilysu data Adnabod Llinell y Galwr. Yn hytrach, buom yn gofyn am safbwyntiau gan randdeiliaid ar ein syniadau cychwynnol ynghylch sut gallai dilysu data Adnabod Llinell y Galwr weithio, ac i ba raddau y gallai mesurau eraill fod yn ddigonol i fynd i’r afael â’r broblem o sbŵffio rhifau. Gwnaethom ofyn am sylwadau gan randdeiliaid i’n galluogi i asesu ymarferoldeb ein cynigion, ac i’n galluogi i lunio cynigion manwl ar gyfer eu rhoi ar waith, pe baem yn credu bod cynigion o’r fath yn briodol.

1.5 Wrth ystyried yr ymatebion a gawsom i’n hymgynghoriad, rydym wedi asesu ymarferoldeb y broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr. Yn benodol, fe wnaethom ystyried y pethau canlynol:

a) pa mor effeithiol fyddai’r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr i atal sgamiau;
b) sut byddai’r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr yn cael ei monitro a’i gorfodi; a
c) beth fyddai’r rhwystrau rhag gallu rhoi'r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr ar waith.

[1] Ofcom, 2023. *Dilysu data Adnabod Llinell y Galwr: dull posibl o ganfod a rhwystro rhifau sy’n cael eu camfeddiannu*.

1.6 Er ein bod, yn gyffredinol, yn credu y gallai dilysu data Adnabod Llinell y Galwr fod yn ddull effeithiol o atal rhai galwadau niweidiol, rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw:

a) Ei fod yn annhebygol y bydd galwadau sy'n dod o dramor, ac yn dangos rhifau rhyngwladol, yn cael eu dilysu'n llwyr. Y rheswm am hyn yw nad oes rhaid i weithredwyr tramor ddilyn ein rheolau ar ddilysu. I helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, fe wnaethom gynnig proses o'r enw 'ardystiad porth' a fyddai'n golygu, er nad oedd modd dilysu'r rhif sy'n gysylltiedig â'r alwad ei hun, y byddai modd adnabod y gweithredwr a gyflwynodd yr alwad i rwydwaith ffôn cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae risg nad yw'r dull hwn yn debygol o rwystro galwadau sgam sy'n dod o dramor yn ddigonol, gan danseilio effeithiolrwydd y broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr.
b) Ni fyddai'r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr ar ei phen ei hun yn mynd i'r afael â'r risg y bydd galwadau o dramor yn sbŵffio rhifau ffôn symudol y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn golygu bod angen proses ategol, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr, i sicrhau bod galwadau o dramor, sy'n dangos fel rhifau ffôn symudol y Deyrnas Unig, yn cael eu gwneud gan drawsrwydweithwyr go iawn yn y Deyrnas Unedig. Heb y broses hon, ni fyddai'r broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr ar ei phen ei hun yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r broblem o alwadau sy'n sbŵffio rhifau ffôn symudol y Deyrnas Unedig.
c) Byddai dilysu data Adnabod Llinell y Galwr yn broses gymhleth, gostus ac yn cymryd llawer o amser i'w rhoi ar waith. Credwn y gallai mesurau eraill fod â'r potensial i leihau nifer yr achosion o sbŵffio rhifau yn effeithiol ac yn gyflymach.

1.7 Wrth ystyried maint y niwed sy'n cael ei achosi gan alwadau sgam, byddwn yn rhoi cyfres o gynlluniau ar waith yn y dyfodol agos i geisio mynd i'r afael â'r niwed hwn. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u nodi isod.

### Crynodeb o'r cynlluniau

- **Diweddaru ein canllawiau i rwystro galwadau sy'n sbŵffio bod yn Rhifau Cyflwyno daearyddol, a rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn y Deyrnas Unedig.** Rydym eisoes yn mynnu bod gweithredwyr yn nodi ac yn rhwystro galwadau o dramor sy'n sbŵffio bod yn Rhifau Rhwydwaith daearyddol, a rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cynnig diweddaru ein rheolau i fynnu bod rhaid rhwystro galwadau o dramor sy'n ffugio bod yn Rhifau Cyflwyno* daearyddol, a rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn y Deyrnas Unedig (* y rhif mae derbynnydd yr alwad yn ei weld). Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ochr yn ochr â'r diweddariad hwn.[2]

- **Archwilio'r broses o rwystro galwadau o dramor sy'n sbŵffio bod yn rhifau ffôn symudol y Deyrnas Unedig:** Mae angen gallu gwahaniaethu rhwng y galwadau y mae pobl o'r Deyrnas Unedig yn eu gwneud i'w gwlad drwy grwydro dramor, a'r galwadau sy'n sbŵffio bod yn rhifau symudol y Deyrnas Unedig. Felly, rydym wedi dechrau edrych ar yr opsiynau sydd ar gael i adnabod trawsrwydweithwyr symudol dilys, gan gynnwys mesurau a gyflwynwyd gan awdurdodaethau eraill. Byddwn hefyd yn asesu'r manteision a'r heriau a ragwelir. Os byddwn yn gallu dod o hyd i ateb posibl i ddilysu galwadau trawsrwydweithio dilys, byddwn yn ymgynghori ar yr opsiynau hyn maes o law.

[2] Ofcom, 2024. Consultation: Tackling scam calls – expecting providers to block more calls with spoofed numbers.

- **Monitro cydymffurfiad â'n rheolau o dan raglen orfodi.** Rydym wedi agor rhaglen orfodi sy'n canolbwyntio ar ganfod ac atal darparwyr telathrebu unigol sy'n caniatáu i alwadau llais sgam sydd wedi'u sbŵffio ddod i mewn i system symudol y Deyrnas Unedig.[3] Bydd hyn yn cynnwys defnyddio ein canllaw arferion da[4], a gyflwynwyd i nodi'r camau rydym yn disgwyl i ddarparwyr eu cymryd i helpu i atal achosion o rifau ffôn yn cael eu camddefnyddio. Gan fod y canllaw wedi'i gyflwyno ers dros flwyddyn, un o nodau'r rhaglen orfodi hon fydd gweld pa mor dda y mae'r canllaw hwn wedi cael ei roi ar waith.
- **Archwilio datrysiadau uwch ar gyfer olrhain galwadau.** Er mwyn lleihau'r effaith mae sgamiau yn ei chael ar bobl, mae'n hanfodol ein bod yn gallu canfod yn sydyn o ble mae'r galwadau twyllodrus yn dod. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella prosesau olrhain galwadau i helpu i gyflymu'r broses o ganfod gweithredwyr sy'n caniatáu tarddiad a/neu'n trosglwyddo traffig twyllodrus.
- **Monitro'r diwydiant ac yn rhyngwladol.** Byddwn yn monitro effaith mesurau gwirfoddol y diwydiant ar sgamiau, ac yn cymryd rhan weithredol mewn cyrff rhyngwladol i archwilio cydgysylltu trawsffiniol i rwystro galwadau sgam.

1.8 Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu ailedrych ar y broses o ddilysu data Adnabod Llinell y Galwr yn nes ymlaen, yn enwedig os nad yw ein cynlluniau a mesurau'r diwydiant yn arwain at ostyngiad amserol mewn galwadau sgam.

1.9 Bydd ein hymgynghoriad nesaf yn cau ar 28 Mawrth 2404. Bydd yn seiliedig ar dynhau ein rheolau ymhellach i rwystro galwadau sgam sy'n sbŵffio bod yn rhifau daearyddol, a rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn y Deyrnas Unedig. Yn y cyfamser, byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau eraill.

[3] Ofcom, 2024. Enforcement programme into phone and text scams.
[4] Ofcom, 2022. Canllaw arfer da i helpu atal camddefnyddio rhifau a is-ddyrennir ac a aseinir.